Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Brechlyn yn erbyn clefyd niwmococol

Rydym yn dweud hynny fel hyn:
Niw mo coc ol

Mae'r brechlyn hwn ar gyfer pobl hŷn. Ac mae ar gyfer pobl sy'n fwy tebygol o fynd yn sâl iawn os byddan nhw'n cael y clefyd hwn



Beth yw clefyd niwmococol



Mae clefyd niwmococol yn salwch. Mae'n gallu achosi problemau i chi gyda'ch clustiau, eich trwyn a'ch brest.



Mae'n gallu gwneud i chi deimlo'n sâl. Efallai byddwch chi'n teimlo fel bod gennych chi annwyd neu beswch drwg.



Mae'n gallu bod yn ddifrifol iawn. Mae'n gallu achosi problemau eraill yn eich corff.



Efallai bydd rhaid i rai pobl fynd i'r ysbyty.



Mae’n gallu arwain at farwolaeth mewn rhai pobl.



Mae gan rai pobl fwy o siawns o fynd yn sâl iawn.



Mae'r bobl hyn yn gallu cael brechlyn rhag y clefyd.

Beth yw brechlyn



Mae **brechlyn** yn feddyginiaeth sy'n helpu i'ch cadw chi'n ddiogel rhag dal salwch.



Mae brechlynnau fel arfer yn cael eu rhoi trwy bigiad yn rhan uchaf eich braich.



Fel arfer, mae babanod o dan flwydd oed yn cael y pigiad yn rhan uchaf eu coes.



Mae'r brechlyn ar gyfer clefyd niwmococol yn ddiogel iawn. Fyddwch chi ddim yn dal y clefyd gan y brechlyn.



Efallai na fydd y brechlyn yn eich atal rhag dal y clefyd. Ond mae'n gallu helpu i'ch gwneud chi'n llai sâl os byddwch chi'n ei ddal.



Pwy ddylai gael y brechlyn

Mae gan rai pobl fwy o siawns o fod yn sâl iawn gyda chlefyd niwmococol.



Dylech chi gael y brechlyn os ydych chi:

- Yn 65 oed neu'n hŷn.



- Rhwng 2 a 64 oed gyda **chyflwr iechyd tymor hir.**



Mae **cyflwr iechyd** yn broblem sy'n effeithio ar eich corff. Pethau fel cael problemau gyda'ch calon neu gyda'ch anadlu.



Mae **tymor hir** yn golygu ei fod yn para am 12 mis neu fwy.



- Yn gwneud swydd sy'n cynnwys cynhesu metel.
  Gall hyn roi mwy o siawns i chi gael haint yn eich ysgyfaint.



- Ydych chi'n **ddigartref**. Mae **digartref** yn golygu nad oes gennych gartref y gallwch fyw ynddo.



- Efallai y bydd angen i rai babanod dan 2 oed ei gael hefyd.
  Bydd eich meddyg neu nyrs yn rhoi gwybod i chi os oes ei angen ar eich babi.

Sut i gael y brechlyn



Bydd eich meddyg yn rhoi gwybod i chi os dylech chi gael y brechlyn.



Dylech chi gael y brechlyn cyn gynted ag y caiff ei gynnig i chi.



Os na fyddwch chi'n cael gwahoddiad, cysylltwch â'ch meddyg.
Bydd y meddyg yn dweud wrthoch chi os ydych chi'n gallu cael y brechlyn.



Gallwch chi gael y brechlyn ar yr un pryd â'r rhan fwyaf o frechlynnau eraill.



Bydd y meddyg neu'r nyrs yn trafod hyn â chi yn eich apwyntiad.

Cael y brechlyn



Dim ond un pigiad sydd ei angen ar y rhan fwyaf o bobl 2 oed a hŷn.



Efallai bydd angen pigiadau ychwanegol ar rai pobl i'w diogelu yn llwyr.



Bydd eich meddyg yn rhoi gwybod i chi os oes angen i chi gael pigiad arall.



Dylech chi ddweud wrth y person sy'n rhoi'r pigiad i chi os nad ydych chi'n hoffi nodwyddau. Bydd yn eich cefnogi chi.

Beth i’w wneud os ydych chi’n sâl pan mae’n bryd i chi gael y brechlyn



Os ydych chi'n sâl mae'n well i chi aros nes eich bod chi'n teimlo'n well.



Dylech chi ganslo eich apwyntiad a threfnu apwyntiad newydd.
Ond dylech chi geisio cael y brechlyn cyn gynted â phosibl.

Pwy na ddylai gael y brechlyn



Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd ag alergedd i rywbeth yn gallu cael y brechlyn heb broblem.



Dylech chi **ddim** cael y brechlyn os:

- Ydych chi wedi cael **adwaith difrifol** i'r brechlyn o'r blaen

neu



- Os oes gennych alergedd i rywbeth y mae'r brechlyn yn ei gynnwys ac mae'n rhoi **adwaith difrifol** i chi.



Mae **adwaith difrifol** yn golygu:

- Eich bod yn cael trafferth anadlu.



- Eich bod yn teimlo'n ddryslyd, yn benysgafn a dydy hi ddim yn bosibl eich deffro chi.



- Bydd eich wyneb, gwddf neu dafod yn dechrau chwyddo.



Dywedwch wrth y person sy'n rhoi'r brechlyn i chi os ydych chi wedi cael adwaith difrifol i'r brechlyn o'r blaen.

Sgil-effeithiau



Sgil-effeithiau yw'r pethau sy'n gallu digwydd i chi ar ôl i chi gael y brechlyn.



Dydy pawb ddim yn cael sgil-effeithiau.



Os byddwch chi'n cael sgil-effeithiau, dylen nhw wella ar ôl diwrnod neu ddau.



Mae'n bosibl byddwch chi'n teimlo'r pethau hyn ar ôl cael y brechlyn:

- Braich boenus lle cawsoch y pigiad.



- Teimlo'n gynnes, yn oer neu'n crynu.



- Cur pen/pen tost.



- Poenau yn eich corff.



- Teimlo'n flinedig iawn.

Mae'n bosibl y bydd babanod sy'n iau na 2 oed yn:



- Crio llawer.



- Mwy cysglyd nag arfer.



- Gwrthod bwyd.

Rhagor o wybodaeth



Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth am y brechlyn rydych chi'n gallu siarad a'ch meddyg.



Rydych chi'n gallu ffonio GIG 111 Cymru hefyd

Ffonio 111

Mae'n rhad ac am ddim i ffonio'r rhif hwn.



Rydych chi'n gallu edrych ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru:

icc.gig.cymru/brechlynnau



Ewch i'r wefan hon i gael gwybod sut mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth chi:

111.wales.nhs.uk/amdanomni/eichgwybodaeth

© Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydnabyddiaeth i Iechyd Cyhoeddus yr Alban), Medi 2026. ISBN 978-1-83766-947-9

Easy Read UK